

# Paratoi ar gyfer Brexit -

## Adrodd ar barodrwydd y sector gofal iechyd a meddyginiaethau yng Nghymru

Tachwedd 2018

### Cyflwyniad

Gyda llai na phum mis tan y bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae'n amser priodol i ystyried yn fwy manwl barodrwydd gwahanol sectorau yng Nghymru. Mae'r ail adroddiad hwn, mewn cyfres o dri, yn trafod goblygiadau Brexit i'r sector gofal iechyd a meddyginiaethau yng Nghymru, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'n gwaith blaenorol ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018.

1. Yn ein hadroddiad ym mis Ionawr 2018, gwnaethom saith argymhelliad, ac roedd argymhellion 1, 3 a 4 yn ymwneud â'r sector gofal iechyd yng Nghymru. Yn ystod 2018, cafwyd gwell syniad o ganlyniad y negodiadau a dyluniad posibl cytundeb terfynol ar Brexit. Er bod peth ansicrwydd o hyd, mae Llywodraeth y DU wedi gwneud nifer o ymrwymadau a chynigion o ran sut yr hoffai weld cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn gweithio'n ymarferol ar ôl Brexit. Mae hyn yn cynnwys:

- cyhoeddi testun a negodwyd ar gyfer y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE;



- cyhoeddi Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol;
- cyhoeddi hysbysiadau technegol Llywodraeth y DU ar senario "dim bargaen".

**2.** Ar 14 Tachwedd 2018, cyhoeddwyd testun terfynol y negodiadau ar gyfer y Cytundeb Ymadael drafft rhwng y DU a'r UE. Mae'r cytundeb hwn yn ymdrin â'r materion sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE. Cyhoeddir ein hadroddiad yng nghyd-destun y datblygiadau gwleidyddol sy'n dal i fynd rhagddynt o ran y Cytundeb Ymadael. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod nifer o rwystrau gwleidyddol i'w goresgyn cyn y gellir diystyru materion parodrwydd yn llwyr, yn enwedig o safbwynt senario "dim bargaen". Mae amserlen y rhwystrau gwleidyddol hyn yn debygol o ymestyn ymhell i 2019, ac rydym yn ystyried felly ei bod yn bwysig yn y cyfamser ein bod yn craffu ar waith paratoi Llywodraeth Cymru.

**3.** Yn haf 2018, gwnaethom benderfynu ysgrifennu at randdeiliaid am ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed o ran:

- parodrwydd y sector gofal iechyd a meddyginiaethau yng Nghymru ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE;
- sut y mae Llywodraeth Cymru yn arwain yr ymdrechion i sicrhau bod sector gofal iechyd a meddyginiaethau Cymru yn barod ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer "dim bargaen"; ac
- unrhyw faterion eraill y gallai rhanddeiliad ddymuno eu codi â'r Pwyllgor Materion Allanol.

**4.** Cawsom ymatebion gan:

- [Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain \(ABPI\)](#);
- [Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru \(RCN Cymru\)](#);
- [Confederasiwn GIG Cymru](#); a
- [Cangen Cymru o Gymdeithas Feddygol Prydain \(BMA Cymru\)](#).

**5.** Er mwyn trafod mewn rhagor o fanylion rai o'r themâu a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig, fe wnaethom gynnal sesiynau tystiolaeth lafar ar [8 Hydref 2018](#) â Dr Richard Greville o Gymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain; Dr Stephen

Monaghan o BMA Cymru; Lisa Turnbull o Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru; a Vanessa Young o Gonffederasiwn GIG Cymru.

**6.** Gwnaethom ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC, i ofyn am ddiweddariad ynghylch argymhellion ein hadroddiad, “Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?”, a chawsom ymateb ar 10 Medi 2018 ac ymateb pellach ar 2 Tachwedd 2018.

**7.** Gwnaethom holi'r Prif Weinidog yn fanylach yn ystod sesiwn tystiolaeth lafar ar 5 Tachwedd 2018.

**8.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi rhai o brif themâu'r dystiolaeth a gafwyd, ac yn cynnwys ein barn a'n hargymhellion.

## 1. Parodrwydd y sector gofal iechyd a meddyginiaethau - themâu a chanfyddiadau allweddol

### 1.1. Y cefndir

**9.** Yn ein hadroddiad ym mis Ionawr 2018, amlinellwyd nifer o faterion yn ymwneud ag effaith bosibl Brexit ar y sector gofal iechyd a meddyginiaethau yng Nghymru, gan gynnwys yr angen am arweiniad cryfach gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y dylai'r sector fod yn paratoi.<sup>1</sup>

### 1.2. Cynllunio a chyfathrebu yn gyffredinol

**10.** Un o themâu canolog y dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd oedd yr ansicrwydd parhaus a'r ffaith bod nifer o ffactorau anhysbys o hyd mewn cysylltiad ag ymadawiad y DU â'r UE.<sup>2</sup> Dywedodd RCN Cymru wrthym:

“A central theme to all areas of concern is uncertainty, and the fact that the full implications and risks posed by Brexit are, to a certain extent, an unknown quantity. This makes it difficult to predict or plan for the future.”<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, “Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?” - Ionawr 2018

<sup>2</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru; Gonffederasiwn GIG Cymru; BMA Cymru

<sup>3</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

---

**11.** Yn ei thystiolaeth lafar, ategwyd hyn gan Vanessa Young o Gonffederasiwn GIG Cymru gan ei ddisgrifio'n "awyrgylch ansicr iawn". Dywedodd Ms Young wrthym:

"It's just really important, I think, that we have really regular and consistent communication across the whole sector. One of the things the Welsh NHS Confederation has agreed to do with all of the people who were present at our round table, who were representing all parts of the sector, is to pull together a frequently asked questions briefing and we've gone out to everybody and said, 'What are the things that are concerning you? What are the questions that you want answering?', and then we're going to work with Welsh Government colleagues to try and answer those questions consistently and in one place. But, necessarily, over the next few months, we'll continue to see uncertainty around Brexit. We'll have to keep updating that and recognise that it's a dynamic process and the way in which we communicate will continue to need to be dynamic."<sup>4</sup>

**12.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru wrthym fod Llywodraeth Cymru drwy'r cyfnod ers y refferendwm wedi trafod â chyrff iechyd a gofal, er mwyn nodi meysydd a allai gael eu heffeithio gan ymadawiad y DU â'r UE, gan gynnwys Bwrdd Gweithredol y GIG a Phartneriaeth GIG Cymru.<sup>5</sup> Nododd Conffederasiwn y GIG hefyd ei fod wedi cytuno i fod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer cydlynu'r camau gweithredu ar draws sefydliadau'r GIG sy'n gysylltiedig yn benodol â Brexit.<sup>6</sup>

**13.** Pwysleisiodd RCN Cymru yr angen i Lywodraeth Cymru gyfathrebu'n well er mwyn helpu â'r gwaith cynllunio.<sup>7</sup> Dywedodd Lisa Turnbull wrthym:

"What we would say is that we would welcome much stronger communication. For example, we know that there is a portal for businesses to look at and provide them with guidance and support. There is a useful discussion hub on Public Health Wales, but that seems to relate specifically, as you'd expect, to public health questions and policy questions, whereas what we would be looking for, perhaps, is a

---

<sup>4</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 239](#) – 8 Hydref 2018

<sup>5</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [Conffederasiwn GIG Cymru](#)

<sup>6</sup> [Ibid.](#)

<sup>7</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 223](#) – 8 Hydref 2018

---

more central depository, whether that's on HOWIS or on the Welsh Government site, actually providing that clear planning guidance.”<sup>8</sup>

**14.** Ychwanegodd Lisa Turnbull:

“I think strategic planning has begun, which we welcome very much, but I think that needs to be communicated further and faster, and people need to communicate, as I say, at all levels, including, now, they need to think about communicating to the wider workforce and, indeed, to the general public that this work is ongoing.”<sup>9</sup>

**15.** Yn ei dystiolaeth lafar, pwysleisiodd Dr Richard Greville o ABPI hefyd yr angen am fwy o gyfathrebu.<sup>10</sup>

**16.** Dywedodd Vanessa Young, Cyfarwyddwr Conffederasiwn GIG Cymru, wrthym fod cydnabyddiaeth ar draws y sector o'r angen am strategaeth gyfathrebu effeithiol, a bod y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu gan Grŵp Arwain Trefniadau Pontio yr UE, a arweinir gan Lywodraeth Cymru.<sup>11</sup>

**17.** Mewn gohebiaeth, dywedodd Prif Weinidog Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grwpiau er mwyn cynnal trafodaethau â rhanddeiliaid, gan gynnwys fforwm ymgynghori ar Brexit i Weinidogion a rhanddeiliaid drafod iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r fforwm hwnnw'n cynnwys uwch arweinwyr ar draws y sectorau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac fe'i harweinir gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.<sup>12</sup>

### 1. 3. Ein barn

Clywsom, er bod cyfathrebu â'r sector wedi gwella ers cyhoeddi ein hadroddiad cyntaf ym mis Ionawr 2018, mae bylchau o hyd o ran rhaeadru gwybodaeth i bob lefel. Dros y misoedd nesaf, rydym yn disgwyl cynnydd pellach yn yr ymdrechion i gyfathrebu wrth i ganlyniad terfynol trafodaethau Brexit ddod i'r amlwg. Dylai'r gwaith cynllunio ar gyfer hyn fod ar droed eisoes, a byddai'n dda gennym gael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru bod hyn yn wir.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn cadarnhau bod cynlluniau cyfathrebu ar droed ar gyfer y

---

<sup>8</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 224](#) – 8 Hydref 2018

<sup>9</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 226](#) – 8 Hydref 2018

<sup>10</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 233](#) – 8 Hydref 2018

<sup>11</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 231](#) – 8 Hydref 2018

<sup>12</sup> [Cohebiaeth gan y Prif Weinidog ynghylch parodrwydd](#) – 2 Tachwedd 2018

---

cyfnod cyn i'r DU ymadael â'r UE yn ffurfiol ddiwedd mis Mawrth 2019. Wrth gadarnhau hyn, dylid rhannu â'r Pwyllgor yr hyn a ganlyn:

- manylion y risgiau a nodwyd mewn cysylltiad â pharodrwydd sector gofal iechyd Cymru ar gyfer Brexit; a
- manylion ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyfathrebu cynlluniau parodrwydd gyda phob lefel o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

#### 1. 4. Cynllunio ar gyfer gwahanol senarios a “dim bargaen”

**18.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd RCN Cymru ei fod wedi cael cadarnhad bod gwaith ar y gweill mewn nifer o brif feysydd iechyd a gofal cymdeithasol, a bod rhywfaint o gynllunio wrth gefn ar gyfer sefyllfa bosibl “dim bargaen” hefyd yn mynd rhagddo.<sup>13</sup> Fodd bynnag, wedi dweud hynny, nododd RCN Cymru bryderon mai megis dechrau yw'r gwaith cynllunio wrth gefn, a'i bod yn bosibl na fydd digon o amser i wneud yr holl waith yn fanwl.<sup>14</sup>

**19.** Dywedodd BMA Cymru wrthym fod y sefydliad wedi pleidleisio yn ei gyfarfod blynyddol i gynrychiolwyr ym mis Mehefin 2018 i newid ei bolisi er mwyn “gwrthwynebu Brexit a chefnogi rhoi'r penderfyniad terfynol i'r cyhoedd ar y fargaen Brexit”.<sup>15</sup> Ychwanegodd fod BMA Cymru yn parhau i gydweithio â sefydliadau eraill i amlygu peryglon Brexit “dim bargaen” ac er mwyn trafod a chodi pryderon â Llywodraeth Cymru.<sup>16</sup>

**20.** Mewn tystiolaeth lafar, ailadroddodd y Prif Weinidog, Carwyn Jones AC, ei bryderon ynghylch goblygiadau senario “dim bargaen”, gan gymharu hysbysiadau technegol Llywodraeth y DU â nodiadau i “baratoi ar gyfer rhyfel”.<sup>17</sup> Aeth y Prif Weinidog rhagddo i ddweud wrthym na fyddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi hysbysiadau ar wahân yn benodol i Gymru ond byddai'n ystyried ategu hysbysiadau Llywodraeth y DU lle bo angen.<sup>18</sup> Dywedodd y Prif Weinidog wrthym:

“I'd argue that more important than producing notes is the dialogue we are having with different groups as part of the work on Brexit. For example, there's the environment and rural affairs round-table

---

<sup>13</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru](#)

<sup>14</sup> [Ibid.](#)

<sup>15</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [BMA Cymru](#)

<sup>16</sup> [Ibid.](#)

<sup>17</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 91](#) – 8 Hydref 2018

<sup>18</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 100](#) – 8 Hydref 2018

---

stakeholder group that was convened soon after the referendum itself. There's a health Brexit group as well. Rather than saying, 'Look, here's a set of notes that are different to the UK Government's', or identical, what we're saying is, 'Let's sit around the table on a regular basis and then work through the issues so that you're aware of what might happen and what problems might result.'"<sup>19</sup>

## 1. 5. Ein barn

Rydym yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid ynghylch goblygiadau senario "dim bargaen" a'r prinder amser i baratoi ar gyfer canlyniad o'r fath. Caiff y pryderon mwy penodol a godwyd ynglŷn â goblygiadau Brexit i allu parhau â'r trefniadau cyflenwi meddyginiaethau (gan gynnwys mewn senario "dim bargaen") eu trafod yn yr adran a ganlyn.

## 1. 6. Trefniadau cyflenwi meddyginiaethau

**21.** Yn y dystiolaeth a gafwyd, dywedwyd bod trefniadau cyflenwi meddyginiaethau i gleifion ar ôl Brexit yn peri pryder.<sup>20</sup> Nododd ABPI yn ei dystiolaeth fod 45 miliwn o becynnau meddyginiaeth cleifion yn cael eu cludo o'r DU i 27 aelod-wladwriaeth yr UE bob mis, gyda 37 miliwn o becynnau yn cael eu cludo o'r UE i'r DU.<sup>21</sup> Gan hynny, dywedodd y sefydliad wrthym ei fod wedi tanlinellu mor bwysig yw gwerthuso llinellau cyflenwi unigol ar gyfer cynhyrchion unigol, yn enwedig y rheini â llinellau cyflenwi cymhleth a'r rheini sydd â gofynion o ran rheoli tymheredd.<sup>22</sup>

**22.** Yn ei dystiolaeth lafar, ymhelaethodd Dr Richard Greville o ABPI ar hyn gan nodi bod parhau i gyflenwi meddyginiaethau yn "bwysig ym meddyliau pobl".<sup>23</sup> Dywedodd Dr Greville wrthym fod gofyn ar hyn o bryd i ddiwydiannau werthuso'r llinellau cyflenwi a'r gofynion rheoleiddio, ac meddai mai'r prif beth y maent yn gofyn amdano yw bargaen o ran cydweithrediad rheoleiddiol ynghyd â masnach a symudiad dirwystr ar draws ffiniau.<sup>24</sup> Ychwanegodd Dr Greville fod aelodau ABPI wrthi'n gweithio ar gynlluniau wrth gefn ar gyfer cyflenwi meddyginiaethau:

---

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 101](#) - 8 Hydref 2018

<sup>20</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru](#)

<sup>21</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain](#)

<sup>22</sup> [Ibid.](#)

<sup>23</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 210](#) - 8 Hydref 2018

<sup>24</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 211](#) - 8 Hydref 2018

---

“Basically that’s a request from the UK Government for manufacturers to increase their stock within pre-wholesaler of up to and including six weeks’ additional stock of medicines. So, ‘pre-wholesaler’ means that the stockpiling is done at the cost of the manufacturer within warehousing that the manufacturer maintains and pays for. So, that, I think, is the difference between the stockpiling. I think Nessa was talking about stockpiling within the NHS, and the ask on manufacturers is for us to stockpile an additional six weeks within pre-wholesaler facilities within the UK.”<sup>25</sup>

**23.** Hefyd, dywedodd Dr Greville wrthym am rai o’r pethau y mae angen i’r diwydiant eu hystyried o ran storio meddyginiaethau mewn swmp:

“There are certain issues with regard to the costs of bringing additional stock to the UK. There are also issues about the costs of the additional warehousing needed and, obviously, if the warehousing isn’t an option that’s possible for whatever reason, the costs of air freight are also a consideration. And for all of the above, you also need to consider the capacity availability in the UK. Medicines are slightly different from a lot of other goods in that they are very heavily regulated. So, it isn’t a case of creating a warehouse without any appropriate regulatory sign-off and certification. So, all of that will inevitably take time, but close collaboration and engagement between the Welsh Government and the UK Government on this topic might be very useful.”<sup>26</sup>

**24.** Dywedodd Vanessa Young wrthym, o ran cyflenwi meddyginiaethau, fod Llywodraeth y DU yn arwain y diwydiant fferyllol â’r gwaith paratoi i sicrhau bod digon o feddyginiaethau.<sup>27</sup> Wrth drafod rôl Llywodraeth Cymru, dywedodd Ms Young wrthym:

“what the Welsh Government is asking individual organisations to do is to review and rehearse promptly existing business continuity and resilience arrangements within organisations and to do that with their local and regional partnerships and through local resilience forums. And then, they have provided a checklist to give us areas of particular things to focus on in terms of those actions, starting with resilience and continuity. So, confirming that existing arrangements are up to date,

---

<sup>25</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 211](#) – 8 Hydref 2018

<sup>26</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 214](#) – 8 Hydref 2018

<sup>27</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 194](#) – 8 Hydref 2018

---



they're working with partners to pay particular consideration to Brexit and that plans are in place for a rehearsal for January next year.

[...]The second area is in terms of continuation of supply and the focus there is on the extent to which organisations are confident of their inventory management arrangements. So, how confident are we that we have up-to-date, accurate, real-time inventory data for our medicines and consumables? Then, the final point is around critical machinery and Equipment.”<sup>28</sup>

**25.** Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru wrthym yr hysbyswyd y GIG yng Nghymru nad oes angen iddo gymryd unrhyw gamau i storio meddyginiaethau ychwanegol mewn swmp y tu hwnt i'w lefelau stoc presennol, ac nad oes angen i glinigwyr ysgrifennu presgripsiynau GIG ar gyfer cyfnodau hwy.<sup>29</sup>

## 1. 7. Ein barn

Clywsom gan randdeiliaid fod parhau i gyflenwi meddyginiaethau mewn senario Brexit “dim bargaen” yn bryder sylweddol i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Rydym yn deall o'r dystiolaeth a gafwyd fod gwaith paratoi ar y gweill i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu cyflenwi yn barhaus ac rydym yn cytuno y bydd angen dull gweithio cydlynol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrth lunio cynlluniau wrth gefn.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn amlinellu manylion:

- ei thrafodaethau ag adrannau cyfatebol Llywodraeth y DU ynghylch cydlynu eu gwaith paratoi ar gyfer Brexit ym maes gofal iechyd a meddyginiaethau; a
- y gwaith sydd ar y gweill i sicrhau bod digon o le mewn warysau i fodloni'r gofynion storio meddyginiaethau.

## 1. 8. Cyd-gydnabyddiaeth i safonau a threfniadau cyfatebol

**26.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, amlinellodd Conffederasiwn GIG Cymru ganfyddiadau ei Fforwm Polisi, sydd wedi'i gymeradwyo gan 20 o sefydliadau yng

---

<sup>28</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraffau 196 a 197](#) - 8 Hydref 2018

<sup>29</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [Conffederasiwn GIG Cymru](#)

---

Nghymru.<sup>30</sup> Mae'r canfyddiadau'n cynnwys galw am gadw'r trefniadau cyfredol o gynnig gofal iechyd cyfatebol ar ôl Brexit; parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol cyfatebol; ac unioni trefniadau rheoleiddio er budd iechyd cleifion a'r cyhoedd.<sup>31</sup>

**27.** Yn ei thystiolaeth lafar, ymhelaethodd Vanessa Young ar y gwaith paratoi yn y maes hwn, gan ddweud:

“The point to make on the technical notices, actually, is that there are a number of areas where they're still silent. We haven't had technical notices on issues like reciprocal healthcare, on much of the public health protection issues and on mutual recognition of qualifications, for example. So, there are a number of areas where we're still waiting to understand that UK position. But they are issues on which we're aware the UK is leading, but in discussion with devolved administrations.”<sup>32</sup>

**28.** Dywedodd RCN Cymru wrthym:

“After Brexit the UK may find it more difficult to access medicines and medical devices if we choose to create new frameworks which are different from EU regulations. This may cause delays in new drugs being made available for patients, with the potential to cause significant harm. Ensuring timely access to medicine is critical for all patients in the UK. The UK Government should also agree mutual recognition of the CE mark between the UK and the EU. The CE mark indicates compliance with EU health and safety standards and allows for free movement of Products.”<sup>33</sup>

**29.** Ar 26 Hydref 2018, cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol), sy'n cynnwys darpariaethau i roi pwerau cyfreithiol i Lywodraeth y DU er mwyn cyllido a gweithredu unrhyw gytundebau rhyngwladol – gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gytundebau â'r UE – mewn perthynas â gofal iechyd ar ôl Brexit.<sup>34</sup>

---

<sup>30</sup> Conffederasiwn GIG Cymru, *The key issues for health and social care organisations as the UK prepares to leave the European Union*

<sup>31</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, *Conffederasiwn GIG Cymru*

<sup>32</sup> Cofnod y Trafodion, *paragraff 255* – 8 Hydref 2018

<sup>33</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, *Coleg Nyrso Brenhinol Cymru*

<sup>34</sup> Llywodraeth y DU, *“New law proposed to safeguard UK citizens' healthcare abroad after Brexit”* – 26 Hydref 2018

---

**30.** Soniodd RCN Cymru a Dr Stephen Monaghan o BMA Cymru am eu pryderon ynghylch gallu parhau i gael mynediad at radioisotopau meddygol ar ôl Brexit.<sup>35</sup> Meddai Dr Monaghan:

“On supplies, specifically, and communication about them, it would only be fair to say that certainly one area where the communications are not adequate, because the position has not been clarified enough, including in the technical notices, is on radioisotopes. So, because we are, as things stand, leaving Euratom—which the BMA regrets—we will not be able to legally obtain radioisotopes from EU member states. They won’t be able to export them to us—any European company. So, what we haven’t seen is clarity as to where the radioisotopes are, therefore, going to come from should there be no deal. So, we’ve seen some detail, obviously, about consumables, about medicines and medical devices, but radioisotopes is a specific area and very heavily regulated—even more heavily regulated than pharmaceuticals, arguably.”<sup>36</sup>

**31.** Dywedodd Lisa Turnbull o RCN Cymru:

“Similarly, there are serious concerns within the health arena in relation to radioisotopes and their movement (currently governed by Euratom). Radioisotopes are highly valuable in medicine, and are widely used in the diagnosis and treatment of disease. Not surprisingly, there are tight regulations surrounding the transportation and importation of radioactive materials. Radioisotopes also have a very short half-life and rapid decay meaning there cannot be any delays in the products reaching patients if they are to be effective. Plans need to be put in place now to ensure that the supply of these resources is not interrupted.”<sup>37</sup>

## 1. 9. Ein barn

Clywsom fod angen cydweithredu parhaus o ran rheoleiddio i sicrhau mynediad parhaus at feddyginiaethau a threialon clinigol newydd. Mae hyn yn adlewyrchu’r hyn a glywsom yn ystod ein gwaith blaenorol yn yr ymchwiliad “Perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol”. Rydym yn nodi bod Papur Gwyn

---

<sup>35</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru; Cofnod y Trafodion, paragraff 189 – 8 Hydref

<sup>36</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 249 – 8 Hydref 2018

<sup>37</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

---

Llywodraeth y DU ar y Berthynas yn y Dyfodol yn cynnig y dylid cael presenoldeb parhaus yn yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd a'i fod yn cynnig y dylid cadw cadwyni cyflenwi integredig, er mwyn osgoi tollau ac achosion o oedi o ganlyniad i reoleiddio ar y ffin (sy'n berthnasol i gyflenwi meddyginiaethau a chynhyrchion gofal iechyd eraill).

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn amlinellu manylion ynghylch sut y mae'n pwysu ar Lywodraeth y DU i gadw cydweithrediad parhaus rhwng y DU a'r UE o ran rheoleiddio i sicrhau mynediad at feddyginiaethau ac ymchwil glinigol ar ôl Brexit.

Rydym yn nodi bod rhywfaint o ansicrwydd yn parhau o ran sicrhau y cynigir trefniadau gofal iechyd cyfatebol ar ôl Brexit, yn enwedig mewn senario "dim bargaen".

Rydym yn nodi pryderon rhanddeiliaid ynghylch yr ansicrwydd parhaus mewn perthynas â mynediad y DU at radioisotopau meddygol yn y dyfodol ac yn credu bod angen cynnig eglurder ynghylch y sefyllfa fel mater o frys.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau mynediad parhaus at radioisotopau meddygol ar ôl Brexit ac yn gofyn i Lywodraeth Cymru amlinellu'r camau y mae wedi'u cymryd i gyflawni'r argymhelliad hwn yn ei hymateb i'n hadroddiad.

## 1. 10. Goblygiadau posibl i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

**32.** Nododd tystiolaeth ysgrifenedig Conffederasiwn GIG Cymru (ym mis Ebrill 2018) fod 1,462 o unigolion a gyflogwyd yn uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru yn teimlo fel gwladolion yr UE (tua 1.6 y cant o'r gweithlu cyfan).<sup>38</sup> Yn ôl BMA Cymru mae tua 6.4 y cant o'r meddygon sy'n gweithio yn y gweithlu meddygol yng Nghymru ar hyn o bryd yn raddedigion yr AEE.<sup>39</sup>

**33.** Cododd Lisa Turnbull o RCN Cymru bryderon am y diffyg data dibynadwy ynghylch y gweithlu gofal cymdeithasol:

"Our concern, which we've identified, is that, although there are a number of EU-registered nurses working in NHS Wales—our concern is what we don't know. So, our concern is how many are working in the independent sector, and also, specifically, around the unregistered

---

<sup>38</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Conffederasiwn GIG Cymru

<sup>39</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BMA Cymru

---

workforce, so people such as care workers—what proportion are EU? The care home sector is fragile; it is very dependent on them for keeping that provision open. And of course, it has a huge impact then on what the NHS's operation is, in terms of the whole-systems approach. So, we are concerned specifically around that area, and we would welcome more—certainly the outcome of this research, and more information about this research that is currently under way, because it is an area of concern for us. [...] As I said, one of the areas is not just your highly skilled, highly specialised roles, but also, equally important, is the very important skills that the care workforce has, and the work that they do in the independent sector in care homes.”<sup>40</sup>

**34.** Dywedodd BMA Cymru wrthym fod mudo o’r AEE a manau eraill yn cynnig amryfal fanteision i’r DU y tu hwnt i staffio:

“Medicine and medical research thrives on the interchange of experience, knowledge and training across countries and backgrounds. Allowing doctors and medical researchers to work, train, teach, conduct research and practice in different countries contributes to widening the understanding of healthcare and advances new breakthroughs in medicine.”<sup>41</sup>

**35.** At hynny, dywedodd BMA Cymru:

“Any reduction in the number of doctors migrating to the UK, or an increase in the number leaving the UK because of Brexit, will have a destabilising effect on the medical workforce, and the staffing of health and social care services across the UK. This will impact on already over stretched staffing levels on hospital wards, in GP practices and in community settings across the UK, putting at risk the quality of patient care and patient safety.”<sup>42</sup>

**36.** Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd Lisa Turnbull o RCN Cymru wrthym fod angen mynd i’r afael â materion sy’n ymwneud â chynaliadwyedd y gweithlu a chyd-gydnabyddiaeth i gymwysterau hefyd:

“One aspect of that is the impact on a sustainable workforce, and there are a number of other issues with a sustainable workforce that we are concerned about—what any future immigration system might look like

---

<sup>40</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 44 – 8 Hydref 2018

<sup>41</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BMA Cymru

<sup>42</sup> Ibid.

and its impact, particularly around not just registered professionals, such as nurses, but also around healthcare support workers, particularly in the independent sector, so not just within the NHS. There are other issues affecting that, such as the recognition of professional qualifications, which need to be very clear.”<sup>43</sup>

**37.** Mewn gohebiaeth ysgrifenedig, dywedodd Prif Weinidog Cymru wrthym fod £200,000 wedi'i ddyrannu drwy Gronfa Drawsnewid yr UE ar gyfer ymchwil ar oblygiadau tebygol Brexit i'r gweithlu gofal cymdeithasol.<sup>44</sup>

## 1.11. Ein barn

Fel yr amlygwyd yn ein gwaith blaenorol ar y goblygiadau i Gymru yn sgil ymadael â'r UE, ein gwaith ar barodrzydd ar gyfer Brexit, a'n gwaith ar berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol, mae pryderon yn parhau ymhlith rhanddeiliaid ynghylch goblygiadau Brexit i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Clywsom fod diffyg data pendant, yn enwedig o ran cyfansoddiad y gweithlu gofal cymdeithasol, yn rhwystro'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru rhag gallu paratoi ar gyfer Brexit. Fodd bynnag, rydym yn nodi hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith ymchwil, a bod y gwaith hwnnw ar y gweill.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn amlinellu:

- yr union amserlenni ar gyfer cwblhau ei gwaith ymchwil ar oblygiadau Brexit i'r sector gofal cymdeithasol;
- manylion ynghylch sut y mae'n bwriadu sicrhau y gall y sector gofal cymdeithasol roi ystyriaeth i'w chanfyddiadau, a sut y caiff y chanfyddiadau hynny eu cyfathrebu i ymarferwyr; a
- manylion ynghylch ei pharatoadau o ran diweddarau cynlluniau ar gyfer recriwtio a chadw staff iechyd a gofal cymdeithasol ar ôl Brexit.

---

<sup>43</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 183](#) - 8 Hydref 2018

<sup>44</sup> [Gohebiaeth gan y Prif Weinidog ynghylch parodrzydd](#) - 2 Tachwedd 2018

---